# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mercher, 20 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R Furlong, Cydgysylltydd Tîm Ardal;
J. Hancock, Swyddog Mentrau Cymdeithasol;
W. Maskell, Swyddog Datblygu Economaidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Swyddfa'r Arweinydd - Neuadd y Sir - 10.00 am - 10.20 am

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. COFNODION PENDERFYNIADAU - 17EG A 27AIN TACHWEDD 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnodion o benderfyniadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 a 27 Tachwedd 2017 gan eu bod yn gywir.**

## 3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch | £3,000.00 |
| Canolfan Gymunedol Pen-y-groes | £3,000.00 |
| Grŵp Menter Gymdeithasol Glanyfferi | £3,000.00 |

## 4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN - CYWION BACH CYF

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr**

**Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gais gan Cywion Bach Cyf am grant tuag at ddatblygu'r hen ysgol yn Idole yn feithrinfa a fyddai'n cynnal 7 o swyddi llawn amser a 13 o swyddi rhan-amser yn ogystal â golygu bod 261 metr sgwâr o ofod llawr yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd/Eiddo** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Cywion Bach Cyf /Ysgol y Fro, Idole | £128,000.00 |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**